


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Atodol 2013-14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

gwybodaeth@cymru.gov.uk
T 0845 010 5500

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cyllideb Atodol 2013-14

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Cynnwys

01. Cefndir ........ 2
02. Memorandwm Esboniadol ........ 2
03. Cwmpas y gyllideb ........ 4

# 01. Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn **ar gyfer 2013-14** ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Tachwedd 2012, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £49.450 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- £35.750 miliwn i wasanaethau'r Cynulliad; a
- £13.700 miliwn ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad.

Darparwyd £0.500 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy y Comisiwn, drwy Gynnig ar y Gyllideb Atodol. Ni fydd y Cynnig ar y Gyllideb Atodol yn ceisio cyllid ychwanegol gan Floc Cymru; ei phwrpas fydd ail-alinio cyllideb y Comisiwn sydd eisoes wedi'i chymeradwyo er mwyn adlewyrchu dau ffactor sylweddol sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn ariannol.

# 02. Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd dychwelyd Cyllideb Adnoddau at Floc Cymru a rheoleiddio ei gyllideb ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â rhagamcanion.

## Cyllideb adnoddau

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd dychwelyd Cyllideb Adnoddau at Floc Cymru a rheoleiddio ei gyllideb ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn unol â rhagamcanion.

Mae'r adolygiad a'r trafodaethau wedi arwain at ostyngiad yng ngwerth ardrethol yr ystâd, gan olygu y gallai'r Comisiwn elwa o ad-daliad sylweddol wedi'i ôl-ddyddio o tua £0.700 miliwn. Bydd y buddion yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol hefyd, gyda gostyngiad yn y bil ardrethi o tua £0.200 miliwn bob blwyddyn.

Ni ragwelwyd y credyd wedi'i ôl-ddyddio ac nid yw'n rhan o'r cynlluniau buddsoddi ar gyfer y flwyddyn gyfredol na'r cynllun buddsoddi tair blynedd a gymeradwywyd gan y Comisiwn yn 2011. Nid yw'r Comisiwn yn gallu cario unrhyw danwariant ymlaen i'r flwyddyn ariannol ganlynol. Felly, mae'n ystyried mai'r peth mwyaf priodol ac effeithiol i wneud er budd y cyhoedd yn gyffredinol fyddai gwneud y cyllid sydd ar gael i Floc Cymru drwy gynnig cyllideb atodol (negyddol).

## Gwariant a reolir yn flynyddol

Pwrpas cyllideb gwariant a reolir yn flynyddol y Comisiwn yw'r addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad. Pwrpas yr addasiad yw sicrhau bod darlun cywir a theg o atebolrwydd y Cynllun yn cael ei gofnodi ym mantolen y Comisiwn; nid yw'n adlewyrchu'r symiau ariannol a dalwyd gan y Comisiwn i'r Cynllun.

Nid fydd y ffigur gwirioneddol i'w gyfrif yn erbyn y gyllideb hon yn hysbys tan ar ôl diwedd y flwyddyn, gan fod yn rhaid i'r prisiad fod yn seiliedig ar y sefyllfa fel y mae ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae hyn yn golygu, at ddibenion cyllidebu, fod yn rhaid i'r ffigur gael ei amcangyfrif, ac mae'r Comisiwn yn gwneud hynny pan fydd y gyllideb wreiddiol yn cael ei chyflwyno ac yna'n ei ddiweddaru yn nhrydydd chwarter y flwyddyn. Mae'r amcangyfrif wedi'i ddiweddaru yn nodi ffigur posibl o £1.045milliwn ar gyfer 2013-14 yn erbyn yr amcangyfrif gwreiddiol o £0.500 miliwn. Gallai'r ffigur terfynol fod yn uwch neu'n is, gan ddibynnu ar ffactorau fel ag y maent ar 31 Mawrth. Mae'r rheolaethau ar gyllidebau ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol yn cydnabod natur amrywiol, adweithiol y ffioedd a godir arnynt.

Felly, bydd y Comisiwn yn cynnig cyllideb atodol ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.700 miliwn i dalu am y ffigwr amcangyfrifedig uwch ac i ddarparu rhywfaint o arian wrth gefn ychwanegol. Drwy gyd-ddigwyddiad, mae'r ffigur yr un peth â gwerth ad-dalu'r ardrethi; nid ydynt yn gysylltiedig.

## Effaith y gyllideb

Bydd y cynnig ar y Gyllideb Atodol yn cynnig yr hyn a ganlyn:

- Gostyngiad yn y Gyllideb Adnoddau o £0.700 miliwn
- Cynnydd yn y Gyllideb ar gyfer gwariant a reolir yn flynyddol o £0.700 miliwn

Mae tabl 1 isod yn dangos y newid yn y gyllideb gymeradwy ar bob un o'r tri prif linell gwariant yng nghyllideb gymeradwy'r Comisiwn.

**Tabl 1**

Costau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| Adnoddau | Cyllideb a gymeradwywyd | Cyllideb atobol arfaethedig | Cyllideb ddiwygiedig arfaethedig |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Staff y Comisiwn | 16.3 | - | 16.3 |
| Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer y Cynulliad | 13.7 | - | 13.7 |
| Costau sefydlog (gan gynnwys dibrisiad) | 12.6 | -0.7 | 11.9 |
| Costau amrywiol | 4.6 | - | 4.6 |
| Rhaglen fuddsoddi | 2.3 | 0 | 2.3 |
| | 49.5 | -0.7 | 48.8 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 0.5 | 0.7 | 1.2 |

# 03. Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 i helpu i lunio Cynnig Cyllideb sy'n ofynnol yn ôl Adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Cynulliad o ran adnoddau a gofynion gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2014.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi'r adnoddau net i'w defnyddio ar gyfer gwasanaethau a dibenion Gwasanaethau'r Aelodau a'r Cynulliad. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net a ragwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod talu amdanynt.

Nodir y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer Comisiwn y Cynulliad yn 2014-15, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion hyn, isod yn Nhabl 2.

| **Tabl 2** | **£000** |
|---|---|
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau refeniw a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | 35,050 |
| Arian ar wahân i arian cronnus i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau. | 13,700 |
| *Cyfanswm yr arian, ar wahân i arian cronnus* | *48,750* |
| Gwariant a Reolir yn Flynyddol i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â darparu Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 1,200 |
| Arian cronnus i'w gadw yn unol ag Adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w ddefnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru:<br>o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>incwm rhent; anrhegion; cymorth grant; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Cynulliad. | 250 |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill. | 45,850 |

Mae tabl 3 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 3 GOFYNIAD ARIANNOL** | **£000s** |
|---|---|
| | **2013-14 Wedi'I adolygu** |
| Gofyniad Refeniw Net yr Aelodau | 13,700 |
| Gofyniad Refeniw Net y Comisiwn [1] | 34,300 |
| Gofyniad cyfalaf net | 750 |
| Darpariaeth Pensiwn Aelodau'r Cynulliad | 1,200 |
| *Addasiadau:* | |
| Dibrisiant | (4,000) |
| Newidiadau yn y ddarpariaeth | (1,200) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 1,000 |
| Defnydd o ddarpariaethau | 100 |
| **Gofyniad ariannol net i'w gymryd o Gronfa Gyfunol Cymru** | 45,850 |

[1] Incwm Cronnus Tybiedig o £0.250 miliwn o flwyddyn i flwyddyn.